

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWDYD AR 1af o FAWRTH 2021 TRWY GYFRWNG ZOOM AM 7.00 O'R GLOCH

Presennol: Margaret Rees (yn y gadair), Alan Lewis, Ian Evans, Tyssul Evans, Linda Williams, Caroline Williams, Geraint Rosser, Meic Bowen, Aled Williams a'r Clerc, Glyndwr Prideaux.

Ymddiheuriadau: Heddwyn Jones, Tracey James a Geoff Hewitt

2550 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd.

2551 Cofnodion

Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfodydd diwethaf ar 01/02/2021 fel rhai cywir.

2552 Materion yn codi.

Tud 1. Cofnod Rhif 2525 - Clwb Cymdeithasol Carwe. – Derbyniwyd ymateb oddiwrth y Cyngor Sir bod y mater o dan law.

Tud 1. Cofnod Rhif 2525- Swyddfa Bost Carwe - Cysylltw'n eto gyda'r Swyddfa Bost er mwyn trefnu Cyfarfod Safle pan bod y sefyllfa COVID-19 yn caniatáu.

Tud 1. Cofnod Rhif 2525 – Cofeb Rhyfel Pontiets – Derbyniwyd adroddiad gan y Clerc bod trafodaeth yn parhau gyda'r 'War Memorials Online'

Tud 1. Cofnod Rhif 2525 - Parc Pontiets - Gobeithir symud ymlaen a'r gwaith angenrheidiol o fewn y mis os bydd y tywydd yn caniatáu.

Tud 1. Cofnod Rhif 2525 – Llwybr Treftadaeth – Arhoswn am adroddiad ac amcan brys oddiwrth Cwmni Phillip Wait, Cynghordy.

Tud 1. Cofnod Rhif 2525 - Glanhau/Golchi Ceir - Heol y Meinciau, Pontiets - Gan nad yw'r mater wedi ei datrys gofynnir i'r Heddlu gwneud ymholiadau pellach.

Tud 1. Cofnod Rhif 2525 - Cysgodfa Bys Crwbin – Mae'r Heddlu yn cadw golwg ar y sefyllfa.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

2553 Gofal Mewn Galar – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £100.

2554 Canser Macmillan Cymru – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50.

2555 Ambiwylans Awyr Cymru i Blant – Llythyr yn diolch am y rhodd.

2556 Carway Short Mat Bowls - Llythyr yn diolch am y rhodd.

2557 Bethel Carwe – Llythyr yn diolch am y rhodd.

2558 Pwyllgor Lles Llangyndeyrn – Yswiriant y Parc – Llythyr yn diolch am y rhodd.

2559 Eglwys Llangyndeyrn – Llythyr yn diolch am y rhodd.

2560 Neuadd Llangyndeyrn – Llythyr yn diolch am y rhodd.

Gohebiaeth gyffredinol :-

2561 Calor Rural Community Fund - Ceisiadau am nawdd ariannol - Byddwn yn edrych am nawdd tuag at Barc Pontiets.

2562 Sharon Williams, Crwbin - Llyfrgell Gymunedol yn y Blwch Ffon - Nodwyd gyda diolch bod hwn ar agor.

Ceisiadau Cynllunio

2563 a) Rhif y Cais – PL/01154 – Tir gyferbyn a Heol Glyndwr, Pontiets – Datblygiad Preswyl – Dim Gwrthwynebiad gyda'r cytundeb canlynol :-

We have no objections to the planning application PL/01154 provided that the site is contained within the development limits of the village of Pontiets. We as a Community Council very much welcome the inclusion of two affordable dwellings on the development site. We would also ask of the possibility that a sum could be secured within any Section 106 agreement with the developers for the purpose of improving the play area and play equipment that is situated adjacent to the new Co-op store at the bottom of the village as can be seen in the enclosed photographs.

b) Rhif y Cais - PL/01231 - Tŷ Annedd - Tir nes at Y Bwthyn Gwyn, Carwe -

We have no objections to the planning application PL/01231 subject to nothing being done to adversely affect the Public Right of Way No. 30/124 and the preferred entrance to the site being from the main road B4317.

Gwaharddiad y Cyhoedd

2564 Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod o achos ein bod yn trafod materion cyfrinachol

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r Mis

2565 Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Chwefror 2021. Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

Adroddiad Ariannol Misol

2566 Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-

- a)** Cyflog y Clerc - £446.63 (Mis Chwefror)
- b)** Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Chwefror)
- c)** Cydnabyddiaeth y Syrfêwr - £110.00 (Mis Chwefror)
- ch)** HMRC (Treth)- £89.20 (Mis Chwefror)
- d)** Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Chwefror)
- dd)** BT – Ffon y Swyddfa - £50.64 (Mis Chwefror)
- e)** Paula Clarke – Glanhau Toiledau'r Meinciau (Mis Chwefror)- £182.00
- f)** EDF – Trydan – Toiledau'r Meinciau (Mis Chwefror) - £14.68
- ff)** Ciran Griffiths – Gwaith wrth gatiâu Rheilffordd Pontiets - £20.00
- g)** Jamie King – Wefan y Cyngor - £80.00
- ng)** Ffon y Syrfêwr - £60.00
- h)** Treuliau'r Syrfêwr - £64.00

2567 Adroddiad Blynnyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2021.

Derbyniwyd yr adroddiad oddiwrth y Clerc a nodwyd ei chynnwys.

2568 Rheolau Sefydlog

Derbyniwyd a nodwyd y Rheolau Sefydlog.

2569 Rheolau Ariannol

Derbyniwyd a nodwyd y Rheolau Ariannol.

2570 Archwiliwr Mewnol y Cyngor

Derbyniwyd ac apwyntiwyd Mr Phillip Sillick o Bontybrenin fel Archwiliwr Mewnol y Cyngor am y flwyddyn ariannol 2020 - 2021.

2571 Rheilffordd Pontiets

Derbyniwyd adroddiad gan y Clerc ynglyn a'r ffaith bod y gatieau ar y safle wedi bod yn symud yn y gwynt anarferol dros benwythnos ym Mis Chwefror. Penderfynwyd cysylltu gyda Chymdeithas Rheilffordd y Gwendraeth yn gofyn iddynt sicrhau bod y safle'n saff ac os na chawn ymateb boddhaol y byddwn yn cysylltu'n uniongyrchol gyda Network Rail.

2572 Sbwriel ar B4309

Derbyniwyd cwyn ynglyn a'r sbwriel ar yr hewl B4309 trwy Pontiets a'r Meinciau. Cafwyd adroddiad bod y Cyngor Sir wedi gwneud casgliad sbwriel hewl yn gyffredinol trwy'r gymuned a diolchwyd iddynt am y gwaith.

2573 Hacio E-bost y Cyngor

Derbyniwyd adroddiad gan y Clerc bod E-bost y Cyngor wedi cael ei hacio ar Ddydd Llun 15/02/21. Cafwyd cefnogaeth arbennig gan adran IT y Cyngor Sir ac roedd y Clerc wedi danfon diolchiadau'r Cyngor i'r unigolion yn diolch am y gefnogaeth.

Cyfarfod nesaf:- 12fed o Ebrill 2021

Llofnodwyd..... **CADEIRYDD**

Dyddiad.....